EA - WATER QUALITY - BOX 18
File copy
DO NOT REMOVE

Briefing Note

NTAETH YR
YLCHEDD CYMRU
IRONMENT
NCY WALES

River basin planning and the Water Framework Directive

The Water Framework Directive (WFD) operates through a process of river basin planning and management. This Brief gives the Environment Agency's current understanding and position on some of the key issues of the river basin management and planning process.

Key issues

- The interpretation of the concept and process of river basin planning and management.
- 'Derogations' and the sign-off of River Basin Management Plans (RBMPs) by the Secretary of State and the National Assembly for Wales.
- Programmes of measures - the use of basic and supplementary measures in RBMPs.
- The Agency's River Basin Planning Project.
- The production of RBMPs within the Agency.

Background

The WFD operates through a system of river basin planning and management. As part of this process the WFD requires the production of River Basin Management Plans (RBMPs) for each River Basin District (RBD) by December 2009 (draft plans by December 2008). These plans will be strategic management documents developed through an integrated planning process for the achievement of the objective of good ecological status as required by the WFD. It is expected that more detailed plans will underpin the summary RBMPs.

The planning process includes describing the characteristics of the RBD, analysing the pressures and impacts on water bodies, monitoring, objective setting, and consideration of the measures to maintain or improve water status. RBMPs will have a number of functions, but are primarily intended to record the current status of water bodies within RBDs, set out (in broad terms) what measures are planned to meet the objectives, and act as the main reporting mechanism to the European Commission.

In order to deliver this integrated approach to river basin management the Agency will need to co-operate extensively with organisations both within and outside the sphere of water management. The WFD stipulates a cyclical planning and management process, where RBMPs are prepared, implemented and then reviewed every six years in order to revise objectives and management activities.

The concept and process of river basin planning and management

While the general concept of river basin planning and management is well understood, how this should best be implemented in practice is yet to be determined. The WFD Common Implementation Strategy

Environment Agency, Rio House, Waterside Drive, Aztec West, Almondsbury, Bristol BS32 4UD
Tel: 01454 624 400 www.environment-agency.gov.uk

(CIS) guidance helpfully defines the meaning of and relationships between 'river basin planning', 'river basin management' and 'River Basin Management Plans':

> **River basin planning** is the process of collecting and analysing river basin data and evaluating management measures (i.e. 'appraisal' of options etc...) in order to achieve the objectives of the WFD within prescribed timescales.
>
> The river basin planning process is followed by implementation of the programme of measures. The planning process together with the implementation of the programme of measures is often referred to as **river basin management.**
>
> The WFD (Article 13 & 15) requires Member States to produce a management plan for each River Basin District. The **River Basin Management Plan** (RBMP) is a key outcome of the process of river basin planning. It will record the current status of water bodies within the River Basin District, summarise what measures are planned to meet objectives and act as the main reporting mechanism to the Commission and the public.

River Basin Management Plans, which are to be approved by the Secretary of State and/or the National Assembly for Wales and then submitted to the European Commission, are likely to be summary plans. More detailed operational management plans or 'supplementary plans' can be developed to contain more detail or deal with catchments or sub-basins, industry sectors or particular issues.

'Derogations' and sign-offs

The Secretary of State and the National Assembly for Wales (the Assembly) will have an explicit role in approving RBMPs, with powers to require modifications, or to reject them. This is particularly relevant in the identification of 'derogations', which are exceptions to the need to reach the good status requirements of the WFD.

A case for a derogation can be made on the basis of the technical infeasibility or disproportionate cost of measures required to bring water bodies to good status. Derogations can enable extended deadlines or lower objectives. Derogations can also be applied where new modifications to the physical characteristics of surface water bodies or alterations to groundwater levels prevent good status objectives from being achieved, or where deterioration from high to good status is the result of new sustainable development activities, subject to certain criteria being met. New modifications and developments could be approved on the basis of overriding social or business needs, but would have to be approved by Defra/Office of the Deputy Prime Minister (ODPM) Secretaries of State for modifications in England and the Assembly for modifications in Wales.

Possibilities for derogations also exist in the situation of unforeseen circumstances such as drought or flood periods.

Programmes of measures

If a water body is considered to be at risk of not achieving the ecological and chemical status objectives set by the WFD by 2015 then a 'programme of measures' (PoM) must be established to bring that water body up to the required status. The PoM will be presented in summary form in the RBMP.

The PoM can be a mix of basic and supplementary measures. Basic measures are obligatory and include existing EU legislation and controls on major pressures. The WFD will, in some cases, replace some of the existing water directives while others will be used as statutory measures within the PoM (see the Appendix).

Supplementary measures in the WFD include optional measures such as economic/fiscal instruments, negotiated environmental agreements, codes of good practice, strategies (e.g. for soil management), efficiency/reuse measures and education and partnership projects.

In developing PoMs, it will be particularly important to maintain a close dialogue with regional and local spatial planning organisations. Emerging regional spatial strategies and local development documents may include WFD supplementary measures, but may also raise the need for derogations to be established.

The way forward - the River Basin Planning Project

The River Basin Planning (RBP) Project within the Agency's WFD Programme has a number of key objectives.

- Develop the concept of river basin management and planning for the integrated management of water in England and Wales, in close liaison with the Scottish Environment Protection Agency (SEPA) and Environment and Heritage Service Northern Ireland (EHSNI) and other bodies.
- Deliver processes, guidance and systems for developing RBMPs and river basin management (WFD Article 13) and reporting (WFD Article 15) in accordance with the requirements of Annex VII, for each River Basin District.
- Develop the Agency's approach to WFD public participation, in accordance with the requirements of Article 14, following formal consultation in England and Wales.
- Develop the Agency's River Basin Planning Strategy, following formal consultation in England and Wales.
- Provide a clear reporting mechanism to the Secreatry of State/the Assembly and the European Commission on those planned activities identified in the RBMP for River Basin Districts.
- Develop the institutional and administrative requirements necessary to ensure the consistent development and delivery of RBMPs and WFD work programmes across regional boundaries and the England/Scotland and England/Wales borders.
- Provide understanding as to how RBMP interacts with other regulatory drivers such as:
  - the Directive on Public Access to Information
  - the Strategic Environmental Assessment Directive
  - the Groundwater Daughter Directive
  - the proposed Environmental Liability Directive
- Identify the high level resource and skills requirements for implementation of river basin planning.
- Promote, facilitate and support a dialogue between Defra, the Welsh Assembly Governement, the ODPM and the local government associations of England and Wales to allow the necessary links to be achieved between the WFD and land use planning.
- Represent England and Wales on the Common Implementation Strategy (CIS) Working Group 2B 'Integrated River Basin Management'.
- Represent England and Wales on the UK Technical Advisory Group 'Planning' sub-group.

Production of River Basin Management Plans within the Agency

The RBP Project will provide the guidance and processes that will then be translated into Agency Management System format. Process and Operations will be responsible for applying the concept of river basin planning and producing and operating RBMPs. Operations will then work with local/regional stakeholders to develop programmes of measures and summarise these into RBMPs.

ENVIRONMENT AGENCY
022815

The RBP Project will engage formally and informally with stakeholders from central, regional and local government, other regulatory and conservation agencies, trade and industry associations, and non-governmental organisations (NGOs). A formal national consultation on the approach to river basin planning in England and Wales will be a key milestone in the production of the final Agency RBP strategy. The consultation will include a three-month period for written comments and may also include a series of regionally based seminars/workshops.

Appendix - EC directives and the WFD

EC directives forming part of the PoM basic measures:

- Bathing Water Directive - 76/160/EEC
- Birds Directive - 79/160/EEC
- Drinking Water Directive - 80/778/EEC as amended by Directive 98/83/EC
- Environmental Impact Assessment Directive - 85/337/EEC
- Sewage Sludge Directive - 86/278/EEC
- Urban Waste Water Treatment Directive - 91/271/EEC
- Plant Protection Products Directive - 91/414/EEC
- Nitrates Directive - 91/676/EEC
- Habitats Directive - 92/43/EEC
- Integrated Pollution Prevention Control Directive - 96/61/EC
- Major Accidents (Seveso) Directive - 96/82/EC
- Landfill Directive - 99/31/EC

By the end of 2007 the WFD will replace:

- Surface Water Abstraction Directive - 75/440/EEC
- Exchange of Information on Surface Water Decision - 77/795/EEC
- Surface Water Abstraction Measurement/Analysis Directive - 79/869/EEC

By the end of 2013 the WFD will also replace:

- Dangerous Substances Directive - 76/464/EEC
- Freshwater Fish Directive - 78/659/EEC
- Shellfish Waters Directive - 79/923/EEC
- Groundwater Directive - 80/68/EEC

For further information, please contact:
Isobel Austin, Environment Agency, Water Framework Directive Communications
Tel: 01491 828520 Email: isobel.austin@environment-agency.gov.uk

Version 1 – February 2004

Nodyn Cyfarwyddyd

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Cynllunio basnau afonydd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Gweithredir y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WDF) trwy broses o gynllunio a rheoli basnau afonydd. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn rhoi safbwynt a dealltwriaeth bresennol Asiantaeth yr Amgylchedd o rai o faterion allweddol y broses gynllunio a rheoli basnau afonydd.

Materion allweddol

- Dehongli'r cysyniad a'r broses o gynllunio a rheoli basnau afonydd.
- 'Rhan-ddirymiadau' a llofnodi Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (RBMPs) gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Rhaglenni o fesurau – y defnydd o fesurau sylfaenol ac ategol mewn RBMPs.
- Prosiect Cynllunio Basnau Afonydd yr Asiantaeth.
- Cynhyrchu RBMPs o fewn yr Asiantaeth.

Cefndir

Gweithredir y WFD trwy system o gynllunio a rheoli basnau afonydd. Fel rhan o'r broses hon mae'n ofynnol i'r WFD gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (RBMPs) ar gyfer pob Rhanbarth Basn Afon (RBD) erbyn Rhagfyr 2009 (cynlluniau drafft erbyn Rhagfyr 2008). Dogfennau rheoli strategol fydd y cynlluniau hyn i'w datblygu trwy broses gynllunio integredig er mwyn cyflawni'r amcan o statws ecolegol da fel sy'n ofynnol yn ôl y WFD. Disgwylir i gynlluniau mwy manwl ategu'r RBMPs cryno.

Mae'r broses gynllunio yn cynnwys disgrifio nodweddion RBD, dadansoddi pwysau ac effeithiau ar ardaloedd dyfrol, monitro, pennu amcanion, ac ystyried y mesurau i gynnal neu wella statws dŵr. Bydd gan RBMPs nifer o swyddogaethau, ond eu bwriad sylfaenol yw cofnodi statws cyfredol ardaloedd dyfrol o fewn RBDs, nodi (yn gyffredinol) pa fesurau sydd wedi'u cynllunio i fodloni'r amcanion, a gweithredu fel y prif fecanwaith adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Er mwyn rheoli basnau afonydd yn y dull integredig hwn, bydd angen i'r Asiantaeth gydweithredu'n eang â sefydliadau o fewn ac y tu allan i faes rheoli dŵr. Mae'r WFD yn nodi proses gynllunio a rheoli gylchol, lle mae RBMPs yn cael eu paratoi, eu gweithredu ac yna'u hadolygu bob chwe blynedd er mwyn diwygio amcanion a gweithgareddau rheoli.

Y cysyniad a'r broses o gynllunio a rheoli basnau afonydd

Tra bod pobl yn deall cysyniad cyffredinol cynllunio a rheoli basnau afonydd, nid ydym wedi penderfynu ar y ffordd orau o weithredu hyn yn ymarferol. Mae canllawiau Strategaeth Weithredu

Gyffredin y WFD (CIS) yn rhoi diffiniad defnyddiol o'i ystyr a'r gydberthynas rhwng 'cynllunio basnau afonydd', 'rheoli basnau afonydd' a 'Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd':

> ***Cynllunio basnau afonydd*** *yw'r broses o gasglu a dadansoddi data basnau afonydd a gwerthuso mesurau rheoli (h.y. 'arfarnu' opsiynau ac ati...) er mwyn cyflawni amcanion y WFD o fewn terfynau amser y cytunir arnynt.*
>
> *Mae'r broses o gynllunio basnau afonydd yn cael ei dilyn gan weithredu'r rhaglen o fesurau. Cyfeirir yn aml at y broses gynllunio ynghyd â gweithredu'r rhaglen o fesurau fel* ***rheoli basnau afonydd.***
>
> *Mae'n ofynnol yn ôl y WFD (Erthygl 13 a 15) i Aelod Wladwriaethau gynhyrchu cynllun rheoli ar gyfer pob Rhanbarth Basn Afon. Mae'r Cynllun* ***Rheoli Basnau Afonydd*** *(RBMP) yn ganlyniad allweddol y broses o gynllunio basnau afonydd. Bydd yn cofnodi statws cyfredol ardaloedd dyfrol yn y Rhanbarth Basn Afon, crynhoi pa fesurau sydd wedi'u cynllunio i fodloni amcanion a gweithredu fel y prif fecanwaith adrodd i'r Comisiwn a'r cyhoedd.*

Mae'n debyg y bydd Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, a fydd yn cael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol a/neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yna'u cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd, yn gynlluniau cryno. Gellir datblygu cynlluniau rheoli gweithredol mwy manwl neu 'gynlluniau atodol' i gynnwys mwy o fanylion neu ddelio â dalgylchoedd neu is-fasnau, sectorau diwydiant neu faterion penodol.

'Rhan-ddirymiadau' neu lofnodi

Bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) swyddogaeth benodol i gymeradwyo RBMPs, gyda phwerau i ofyn am addasiadau, neu eu gwrthod. Mae hyn yn berthnasol iawn o ran nodi 'rhan-ddirymiadau', sef eithriadau i'r angen i gyrraedd gofynion statws da y WFD.

Gellir cyflwyno achos am ran-ddirymiad ar sail anymarferoldeb technegol neu gostau anghymesur y mesurau sy'n ofynnol i sicrhau bod ardaloedd dyfrol yn cyrraedd statws da. Gall rhan-ddirymiadau arwain at derfynau amser estynedig neu amcanion is. Gellir defnyddio rhan-ddirymiadau hefyd lle mae addasiadau newydd i nodweddion ffisegol ardaloedd dŵr wyneb neu newidiadau i lefelau dŵr daear yn atal amcanion statws da rhag cael eu cyflawni, neu os yw gweithgareddau datblygu cynaliadwy newydd yn arwain at statws uchel yn disgyn i statws da, yn amodol ar fodloni meini prawf penodol. Gellid cymeradwyo addasiadau a datblygiadau newydd ar sail anghenion cymdeithasol neu fusnes hollbwysig, ond byddai'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Defra/ Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) Ysgrifenyddion Gwladol ar gyfer addasiadau yn Lloegr a'r Cynulliad ar gyfer addasiadau yng Nghymru.

Mae posibiliadau ar gyfer rhan-ddirymiadau yn bodoli hefyd dan amgylchiadau annisgwyl fel sychder neu gyfnodau o lifogydd.

Rhaglenni o fesurau

Os ystyrir bod ardal ddyfrol mewn peryg o beidio â chyflawni'r amcanion statws ecolegol a chemegol a bennir gan y WFD erbyn 2015, mae'n rhaid sefydlu 'rhaglen o fesurau' (PoM) i ddod â'r ardal ddyfrol honno i'r statws gofynnol. Bydd crynodeb o'r PoM yn cael ei gyflwyno yn y RBMP.

Gall y PoM fod yn gymysgedd o fesurau sylfaenol ac atodol. Mae mesurau sylfaenol yn orfodol ac yn cynnwys deddfwriaeth a dulliau rheoli cyfredol yr UE ar bwysau sylweddol. Bydd y WFD, dan rai amgylchiadau, yn disodli rhai o'r cyfarwyddebau dŵr cyfredol tra bydd eraill yn cael eu defnyddio fel mesurau statudol o fewn y PoM (gweler yr Atodiad).

Mae mesurau atodol yn y WFD yn cynnwys mesurau opsiynol fel dulliau economaidd/cyllidol, cytundebau amgylcheddol sydd wedi'u cyd-drafod, codau arferion da, strategaethau (e.e. ar gyfer rheoli pridd), mesurau effeithlonrwydd/ ailddefnyddio a phrosiectau addysg a phartneriaeth.

Wrth ddatblygu PoMs, bydd cynnal trafodaethau agos gyda sefydliadau cynllunio gofodol rhanbarthol a lleol yn hynod bwysig. Gall strategaethau gofodol rhanbarthol a dogfennau datblygu lleol newydd gynnwys mesurau atodol WFD, ond gallant hefyd olygu bod angen sefydlu rhyng-ddirymiadau.

Y ffordd ymlaen – y Prosiect Cynllunio Basnau Afonydd

Mae gan y Prosiect Cynllunio Basnau Afonydd (RBP) o fewn Rhaglen WFD yr Asiantaeth nifer o amcanion allweddol.

- Datblygu'r cysyniad o reoli a chynllunio basnau afonydd er mwyn rheoli dŵr yng Nghymru a Lloegr yn integredig, mewn cysylltiad agos â Scottish Environment Protection Agency (SEPA) ac Environment and Heritage Service Northern Ireland (EHSNI) a chyrff eraill.
- Darparu prosesau, canllawiau a systemau ar gyfer datblygu RBMPs a rheolaeth basnau afonydd (WFD Erthygl 13) ac adrodd (WFD Erthygl 15) yn unol â gofynion Atodiad VII, ar gyfer pob Rhanbarth Basn Afon.
- Datblygu dull yr Asiantaeth o sicrhau cyfranogiad y cyhoedd i WFD, yn unol â gofynion Erthygl 14, yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol yng Nghymru a Lloegr.
- Datblygu Strategaeth Gynllunio Basnau Afonydd yr Asiantaeth yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol yng Nghymru a Lloegr.
- Darparu mecanwaith adrodd clir i'r Ysgrifennydd Gwladol/ y Cynulliad a'r Comisiwn Ewropeaidd ar y gweithgareddau a gynlluniwyd sydd wedi'u nodi yn y RBMP ar gyfer Rhanbarthau Basn Afon.
- Datblygu'r gofynion sefydliadol a gweinyddol sydd eu hangen i sicrhau datblygiad a darpariaeth gyson RBMPs a rhaglenni gwaith WFD ar draws ffiniau rhanbarthol a ffiniau Lloegr/yr Alban a Cymru/Lloegr.
- Darparu dealltwriaeth ynglŷn â'r ffordd y mae RBMP yn rhyngweithio gyda gyrwyr rheoleiddio eraill fel:
  - y Gyfarwyddeb ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth
  - y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol
  - yr Epil Gyfarwyddeb Dŵr Daear
  - y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol arfaethedig
- Nodi'r gofynion adnoddau a sgiliau lefel uchel ar gyfer gweithredu cynlluniau basnau afonydd.
- Hyrwyddo, hwyluso a chefnogi trafodaethau rhwng Defra, Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr ODPM a chymdeithasau llywodraeth leol Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau'r cysylltiadau angenrheidiol rhwng y WFD a chynllunio defnydd tir.
- Cynrychioli Cymru a Lloegr ar y Gweithgor Strategaeth Gweithredu Cyffredin (CIS) 2B 'Rheoli Basnau Afonydd Integredig'.
- Cynrychioli Cymru a Lloegr ar is-grŵp 'Cynllunio' Grŵp Cynghori Technegol y DU.

Cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn yr Asiantaeth

Bydd y prosiect RBP yn darparu'r canllawiau a'r prosesau a fydd wedyn yn cael eu trosi i fformat System Reoli'r Asiantaeth. Bydd Prosesau a Gweithredoedd yn gyfrifol am roi'r cysyniad o gynllunio a chynhyrchu basnau afonydd ar waith a gweithredu RBMPs. Bydd Gweithredoedd wedyn yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol/rhanbarthol i ddatblygu rhaglenni o fesurau ac yn crynhoi'r rhain i RBMPs.

Bydd y Prosiect RBP yn ymwneud yn ffurfiol ac yn anffurfiol gyda rhanddeiliaid o lywodraeth ganolog, rhanbarthol a lleol, asiantaethau rheoleiddio a chadwraeth eraill, cymdeithasau masnach a diwydiant, a sefydliadau anllywodraethol. Bydd ymgynghoriad cenedlaethol ffurfiol ar y dull o gynllunio basnau afonydd yng Nghymru a Lloegr yn garreg filltir allweddol wrth gynhyrchu strategaeth RBP derfynol yr Asiantaeth. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfnod tri mis ar gyfer sylwadau ysgrifenedig a gall hefyd gynnwys cyfres o seminarau/gweithdai rhanbarthol.

Atodiad – Cyfarwyddebau CE a'r WFD

Cyfarwyddebau'r CE sy'n ffurfio rhan o fesurau sylfaenol PoM:

- Y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi – 76/ 160/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Adar – 79/ 160/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed 80/ 778/ CEE fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 98/ 83/ CE
- Y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol – 85/ 337/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Llaid Carthion – 86/ 278/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol – 91/ 271/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion – 91/ 414/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Nitradau – 91/ 676/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd – 92/ 43/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd mewn modd Integredig – 96/61/CE
- Y Gyfarwyddeb Damweiniau Mawr (Seveso) – 96/ 82/ CE
- Y Gyfarwyddeb Tirlenwi – 99/ 31/ CE

Erbyn diwedd 2007 bydd y WFD yn cymryd lle:

- Y Gyfarwyddeb Echdynnu Dŵr Wyneb – 75/ 440/ CEE
- Penderfyniad Cyfnewid Gwybodaeth am Ddŵr Wyneb – 77/ 795/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Mesur/ Dadansoddi Echdynnu Dŵr Wyneb – 79/ 869/ CEE

Erbyn diwedd 2013 bydd y WFD hefyd yn cymryd lle:

- Y Gyfarwyddeb Sylweddau Peryglus – 76/ 464/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw – 78/ 659/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn – 79/ 923/ CEE
- Y Gyfarwyddeb Dŵr Daear – 80/ 68/ CEE

Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag:
Isobel Austin, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfathrebu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
Ffôn: 01491 828520 E-bost: isobel.austin@environment-agency.gov.uk

Fersiwn 1 – Chwefror 2004